# Dyfodol Ystâd y Goron yng Nghymru

## CRYNODEB O'R ADRODDIAD INTERIM

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54392, ISBN digidol 978-1-83745-443-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Mae'r grŵp hwn wedi adolygu sut mae Ystâd y Goron yn gweithio yng Nghymru i ddod o hyd i gyfleoedd i wella ei threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd, ac i gael y gorau o'r manteision y mae'n eu cynnig i bobl, cymunedau ac economi Cymru.**

Rydym wedi nodi tri phwynt allweddol:

1. Hyd yma, mae diffyg gwybodaeth ddibynadwy wedi bod ar gael i'r cyhoedd am werth Ystâd y Goron i Gymru, y refeniw sy'n deillio ohoni, a'i chynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Mae hyn wedi arwain at gryn ddyfalu am y manteision ariannol sy'n deillio o'i gweithrediadau yng Nghymru. Mae'r amcangyfrifon presennol o refeniw Ystâd y Goron yng Nghymru yn seiliedig ar y bedwaredd rownd o brosiectau Ynni Gwynt ar y Môr y mae eu refeniw o opsiynau prydlesu yn gyfyngedig o ran amser, yn anghylchol, yn cael ei bennu gan y farchnad, ac wrth reswm yn rhoi baich trwm ar y cychwyn. **Rhagwelir y bydd rowndiau yn y dyfodol ar raddfa lawer llai, gyda chyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu ynni gwynt ar y môr yn nyfroedd Cymru yn y dyfodol**. Oherwydd bod datganoli wedi digwydd yn yr Alban cyn cael refeniw sylweddol uwch yn sgil rownd debyg o brydlesu ynni gwynt ar y môr, mae Llywodraeth yr Alban wedi elwa o ffawdelw (windfall). Nid ydym wedi gweld tystiolaeth y gallai datganoli yng Nghymru nawr arwain at ffawdelw tebyg.

2. Pe bai Cymru'n datganoli Ystâd y Goron, mae profiad yr Alban yn dangos y byddai trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn golygu addasiad canlyniadol i'r grant bloc er mwyn adlewyrchu'r incwm y byddai Llywodraeth Cymru yn ei gael o asedau Ystâd y Goron yng Nghymru. Er mwyn i Lywodraeth Cymru elwa'n ariannol o ddatganoli, byddai angen iddi gynyddu'r refeniw disgwyliedig yn gyflymach na'r addasiad i'r grant bloc drwy fuddsoddi i wella gwerth a chynyddu incwm Ystâd y Goron yng Nghymru. **Mae ein hymchwiliad yn awgrymu y byddai'r refeniw gros disgwyliedig yn debygol o fod yn llai nag £20m y flwyddyn ar gyfartaledd adeg y trosglwyddo, heb gynnwys costau atgynhyrchu'r swyddogaethau sydd eu hangen i reoli'r Ystâd**.

3. Mae tystiolaeth a rannwyd â'r grŵp yn dangos bod Ystâd y Goron wedi dyrannu gwariant cyfalaf sylweddol dros dro (y disgwylir iddo fod yn gannoedd o filiynau o bunnoedd) i gefnogi piblinell o ymyriadau yn y sector ynni gwynt ar y môr yn y Môr Celtaidd, gyda'r nod o alluogi'r pumed rownd o brosiectau Ynni Gwynt ar y Môr a hyd at tua 12 GW arall o gapasiti y tu hwnt i hyn[1]. I gyflawni hyn, bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith galluogi, gan gynnwys porthladdoedd a chadwyni cyflenwi cysylltiedig – y disgwylir i Gymru elwa'n sylweddol ohonynt – a hynny ar lefel sy'n anghymesur â chyfran y capasiti yn nyfroedd Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn dangos bod y prif gyfleoedd i Gymru sy'n deillio o ynni gwynt ar y môr dros y degawd nesaf yn cynnwys sicrhau buddsoddiad newydd i gynyddu rôl porthladdoedd Cymru yn y cadwyni cyflenwi ynni gwynt ar y môr, ac achub ar gyfleoedd ehangach i fanteisio ar y buddsoddiadau hyn er mwyn darparu dulliau cydgysylltiedig a seiliedig ar leoedd o sicrhau datblygiad economaidd ledled Cymru.

Rydym yn argymell y dylid sefydlu partneriaeth newydd rhwng Ystâd y Goron a Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf, i archwilio'r cyfleoedd hyn a sicrhau canlyniadau ar y cyd i gymunedau ar hyd a lled Cymru. Dylai hyn gynnwys blaenoriaethu'r gwaith o nodi'r buddsoddiad galluogi sydd ei angen i sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'r prosiectau ar y môr ym mhiblinell Ystâd y Goron.

---

1 Dyfodol ynni gwynt ar y môr | Ystâd y Goron

Yng nghyd-destun ffawdelw hanesyddol sylweddol yn sgil trwyddedu ynni gwynt ar y môr yn ddiweddar o dan Rownd 4 a throsglwyddiadau cyllidol, dylai'r bartneriaeth hon ystyried y cyfraniad y dylai incwm sy'n deillio o'r prosiectau hyn ei wneud tuag at y buddsoddiad hwn. Dylai hefyd ystyried a oes angen cymryd camau pellach i ffurfioli a gwella'r berthynas waith bresennol er mwyn sicrhau'r aliniad gorau posibl â pholisïau economaidd ehangach Cymru.

Ar yr un pryd – ac er mwyn hwyluso arfarniad seiliedig ar dystiolaeth o'r opsiynau ar gyfer datganoli rhai o swyddogaethau Ystâd y Goron, neu'r cwbl, i Gymru – dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu achos busnes sy'n tynnu sylw at y manteision a allai ddeillio o ddatganoli ac asesu'r newidiadau strwythurol ac ariannol y byddai hyn yn gofyn amdanynt.

Mae'r argymhellion isod yn cynnig cyfres glir a phragmataidd o gamau gweithredu ar gyfer cyflawni hyn i Lywodraeth nesaf Cymru, Llywodraeth y DU ac Ystâd y Goron i'w hystyried:

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1:** | Fel mater o drefn, dylai Llywodraeth y DU ac Ystâd y Goron gyflwyno adroddiadau ariannol a pherfformiad sy'n benodol i Gymru fel rhan o adroddiadau a chyfrifon blynyddol Ystâd y Goron, gan gynnwys refeniw wedi'i ddadgyfuno, costau, piblinellau buddsoddi, a dadansoddiadau risg. Dylai hyn gynnwys archwiliad llawn a phrisiad o asedau a rhwymedigaethau Ystâd y Goron yng Nghymru fel sail ar gyfer unrhyw ystyriaeth o oblygiadau datganoli. |
| **Argymhelliad 2:** | Dylai Llywodraeth y DU, Ystâd y Goron, Llywodraeth Cymru a'r Senedd ddod i gytundeb ffurfiol ynghylch datgelu gwybodaeth ariannol yn flynyddol, trefniadau craffu, ac amserlenni ar gyfer rhannu data sy'n benodol i Gymru ac asesiadau effaith i sicrhau goruchwyliaeth ddemocrataidd briodol.[2] |
| **Argymhelliad 3:** | Dylid sefydlu partneriaeth newydd rhwng Ystâd y Goron a Llywodraeth Cymru i fynd ati ar frys i nodi'r buddsoddiad galluogi sydd ei angen i sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'r prosiectau ar y môr sydd ym mhiblinell Ystâd y Goron. |
| **Argymhelliad 4:** | Ar ôl llunio ein hadroddiad terfynol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, lunio achos busnes sy'n nodi'r strwythur, y capasiti, yr hyblygrwydd ariannol a'r dull ail-fuddsoddi arfaethedig ar gyfer ei rheolaeth ddatganoledig arfaethedig ar Ystâd y Goron yng Nghymru – er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl i bobl, cymunedau ac economi Cymru cyn dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU am ddatganoli. |

2 Ar hyn o bryd, mae Ystâd y Goron yn cyflwyno ei chyfrifon i San Steffan

# Adroddiad Interim Grŵp Cymru ar Ystâd y Goron

**1.** Ym mis Medi 2025, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cymru ar Ystâd y Goron i weithredu argymhelliad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a oedd yn argymell[3] adolygu'r setliad datganoli ac ymgysylltiad rhynglywodraethol i sicrhau bod Cymru'n gallu harneisio ei hadnoddau naturiol i gyfrannu cymaint â phosibl at sero net ac at gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol.

**2.** Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i'r grŵp hwn ystyried llywodraethiant ac atebolrwydd Ystâd y Goron, gyda'r nod o gyflwyno cyfres o argymhellion am oblygiadau ariannol datganoli Ystâd y Goron yng Nghymru, opsiynau i wella atebolrwydd Ystâd y Goron heb iddi gael ei datganoli'n llawn, a goblygiadau ymarferol datganoli i gyflawni yng Nghymru.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfraniadau allweddol gan aelodau o'n grŵp sy'n cynrychioli amrywiaeth o arbenigeddau technegol, gwybodaeth ymarferol a dealltwriaeth o faterion economaidd a chymdeithasol Cymru; llunwyr polisïau perthnasol yn Llywodraeth Cymru; tystiolaeth a gyflwynwyd gan Ystâd y Goron; a Phrif Weithredwr Ystâd y Goron yn yr Alban a rannodd wybodaeth a dealltwriaeth. Rydym yn ddiolchgar am eu cyfraniadau. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Ystâd y Goron am ymgysylltu â ni, gan arsylwi ein sesiynau. Er bod y grŵp wedi anfon cais ar ôl cais, ni lwyddodd i sicrhau unrhyw ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU. Mae hynny'n siomedig, ond croesawir deialog os derbynnir ein hargymhellion.

## Crynodeb o Weithgarwch Ystâd y Goron yng Nghymru

**4.** Corfforaeth statudol yw Ystâd y Goron, a sefydlwyd gan Ddeddf Ystâd y Goron 1961 (fel y'i diwygiwyd). Ei swyddogaeth graidd yw rheoli'r tir, yr hawliau a'r buddiannau sy'n rhan o Ystâd y Goron, ac mae ganddi ddyletswydd statudol i gynnal a gwella gwerth yr Ystâd a'r enillion a geir ohoni, gan roi sylw dyledus i reolaeth dda. Er mai'r Brenin sy'n berchen ar yr Ystâd yn dechnegol, nid yw'r Goron bellach yn chwarae unrhyw rôl mewn penderfyniadau buddsoddi sy'n ymwneud â'r Ystâd ac mae'r refeniw sy'n deillio o'r Ystâd yng Nghymru a Lloegr wedi mynd i Drysorlys EF ers dros ddwy ganrif. Yng Nghymru, mae asedau'r Ystâd yn cynnwys gwely'r môr a'r blaendraeth yn bennaf, ochr yn ochr â phortffolio llai o dir trefol a gwledig. Mae hyn yn golygu bod Ystâd y Goron yn chwarae rhan ganolog mewn meysydd fel datblygu ynni gwynt ar y môr, porthladdoedd a seilwaith morol, a mynediad i'r arfordir.

3 Dyma union eiriad yr argymhelliad: 'Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sefydlu grŵp arbenigol i roi cyngor ar frys ar sut y gellid diwygio'r setliad datganoli ac ymgysylltu rhynglywodraethol mewn perthynas ag ynni i baratoi ar gyfer arloesi technegol cyflym ym maes cynhyrchu a dosbarthu ynni, er mwyn sicrhau bod Cymru'n gallu gwneud yn fawr o'i chyfraniad at sero net ac at gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol. Dylai cylch gwaith y grŵp gynnwys cynghori ar yr opsiynau ar gyfer datganoli Ystâd y Goron, a ddylai ddod yn gyfrifoldeb i lywodraeth ddatganoledig Cymru, fel y mae yn yr Alban'

**5.** Mae Ystâd y Goron yn gweithredu ar hyd a lled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae ganddi dîm bach, ymroddedig yng Nghymru, wedi'i gefnogi gan arbenigwyr, sy'n cynnig yr arbenigedd technegol sydd ei angen ar gyfer cynllunio morol, prydlesu, gwaith cynaliadwyedd, a datblygu masnachol.

**6.** Mae'r gweithgarwch hwn a wneir gan Ystâd y Goron yn bwysig i sicrhau dyfodol economaidd gynaliadwy i Gymru. Mae'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig ag ynni'r môr yn hanfodol i Gymru, gan gynnwys y gwaith o reoli'r ynni gwynt ar y môr sy'n rhan o'r portffolio arfordirol a morol, a'r economi sero net yn y dyfodol. Gall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Ystâd y Goron siapio swyddi, buddsoddiad a dyfodol cymunedau Cymru.

**7.** Er bod Ystâd y Goron yn galluogi buddsoddiadau pwysig yng Nghymru – gan gynnwys mewn ynni adnewyddadwy, gwelliannau amgylcheddol, ac adferiad natur – mae ar hyn o bryd yn rhoi trosolwg o waith yng Nghymru drwy Adolygiad Cymru ond prin yw'r wybodaeth am gyllid sy'n benodol i Gymru. Rydym yn deall bod ymrwymiad wedi cael ei wneud i gyhoeddi rhagor o wybodaeth ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Gwneir penderfyniadau am fuddsoddi ar lefel gyfunol ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd, nid yw Ystâd y Goron yn seilio penderfyniadau buddsoddi ar feini prawf daearyddol. Mae'r refeniw y mae Ystâd y Goron yn ei gynhyrchu yng Nghymru yn mynd yn uniongyrchol i Drysorlys y DU er budd y pwrs cyhoeddus lle mae'n cael ei wario yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth y DU, gan gynnwys yng Nghymru drwy Symiau Canlyniadol Barnett a gwariant uniongyrchol mewn meysydd a gedwir yn ôl, ond nid yw'r manteision sy'n llifo i Gymru yn cael eu nodi ar wahân.

**8.** Mae'r diffyg data hwn am Gymru wedi ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd a sefydliadau yng Nghymru ddeall gwerth ei gwaith yma yn llawn. Byddai prosesau adrodd cliriach ac atebolrwydd lleol cryfach yn ddefnyddiol i ddangos sut mae asedau naturiol Cymru yn cael eu rheoli. Roedd hyn, a'r gred y byddai mwy o reolaeth leol yn sicrhau canlyniadau gwell drwy alinio ag ymyriadau eraill, yn ffactor pwysig i'r 22 cyngor sy'n cefnogi'r alwad am ddatganoli.

**9.** Ar lefel uchel, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r grŵp hwn yn dangos aliniad cryf rhwng strategaeth Ystâd y Goron a deddfwriaeth yng Nghymru, fel y blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016. Mae Ystâd y Goron hefyd yn rhwym wrth ddyletswydd Adran 6(1) o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n ofynnol iddi adrodd ar sut mae'n cyflawni'r ddyletswydd hon. Rydym wedi cael sicrwydd cyson bod perthnasoedd yn gweithredu'n effeithiol ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru ac Ystâd y Goron, yn enwedig o ran datblygu Cynllun Morol Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi cael datganiad clir iawn o fwriad gan Ystâd y Goron am fuddsoddiad sylweddol yng Nghymru sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi ynni gwynt ar y môr a seilwaith porthladdoedd.

**10.** Fodd bynnag, mae natur anffurfiol ac esblygol y berthynas hon wedi golygu nad yw manteision y bartneriaeth i'r naill ochr na'r llall wedi cael eu mynegi mewn ymrwymiadau ysgrifenedig ffurfiol rhwng Ystâd y Goron a Llywodraeth Cymru, felly nid yw hyn wedi cael ei gyfleu'n effeithiol i bobl Cymru nac wedi bod yn destun lefel briodol o graffu cyhoeddus.

## Cyfleoedd yn sgil Datganoli

**11.** Wrth drafod y posibilrwydd o ddatganoli Ystâd y Goron yng Nghymru, fe wnaethom wrando ar dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a amlinellodd eu rhesymau dros gefnogi datganoli, a thystiolaeth gan Ystâd y Goron yn yr Alban, a rannodd eu profiadau o'r manteision a gafwyd a'r heriau yr aethpwyd i'r afael â nhw ers datganoli yn yr Alban. Byddai datganoli rheolaeth Ystâd y Goron i Gymru yn golygu bod angen pasio deddfwriaeth yn San Steffan.

**12.** Mae gan Gymru’r gallu i sefydlu ei chorff datganoledig ei hun i reoli asedau fel y gwelwyd drwy sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a chyrff datganoledig llwyddiannus eraill, ond fel y clywsom mewn tystiolaeth, dylid ystyried unrhyw gam o’r fath yn ofalus er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth dda o bwrpas a rôl y corff ymlaen llaw. Yn ddelfrydol, dylai’r achos dros sefydlu corff newydd gael ei ategu gan achos busnes ffurfiol, i dynnu sylw at y manteision a fyddai’n dod yn ei sgil ac i ddangos gwerth am arian.

## Cyd-destun Ystâd y Goron yng Nghymru

**13.** Ar ôl adolygu’r wybodaeth sydd ar gael i ni drwy’r broses hon, rydym wedi nodi pum bwlch posibl yn nealltwriaeth y cyhoedd o Ystâd y Goron a’i gweithrediadau yng Nghymru:

1. **Gellid ystyried refeniw o Ffioedd Opsiwn ynni gwynt ar y môr fel ffawdelw dros dro, ac nid fel rhan o’r waelodlin ariannol ar gyfer Ystâd y Goron yng Nghymru**. Ar hyn o bryd, daw’r rhan fwyaf o refeniw Ystâd y Goron yng Nghymru o Ynni Gwynt ar y Môr – amcangyfrifir bod y refeniw ar gyfer 2024-2025 ychydig o dan £500m ar gyfer Rownd 4. Y farchnad sy’n pennu’r refeniw a godir drwy Ffioedd Opsiwn ynni gwynt ar y môr, ac er bod refeniw eithriadol wedi bod yn gysylltiedig â’r Bedwaredd Rownd 4 o brosiectau Ynni Gwynt ar y Môr, mae’r refeniw hwn yn gyfyngedig o ran amser ac wrth reswm yn rhoi baich trwm ar y cychwyn er mwyn cymell datblygwyr i fwrw ymlaen â phrosiectau’n gyflym. Mae Ystâd y Goron wedi rhannu â’r grŵp hwn ei bod yn rhagweld y bydd refeniw sy’n gysylltiedig â gwynt ar y môr a godir yng Nghymru yn gostwng tua 90% ar ôl 2026-27 wrth i ffioedd opsiwn Rownd 4 ostwng, ac y bydd Rownd 5 yn sylweddol is gan fod y farchnad fyd-eang yn fwy heriol ar hyn o bryd. Mae Rownd 5 hefyd yn cynrychioli Technoleg Gwynt Arnofiol ar y Môr gychwynnol, nad yw ond megis dechrau cael ei chyflwyno ar raddfa fasnachol ac felly mae ganddi broffil risg gwahanol i ddatblygwyr. O brosiectau Rownd 5, mae tua 50% o ofod y prosiect yn nyfroedd Cymru, ac mae’r 50% arall yn nyfroedd Lloegr. Mae adroddiad Ystâd y Goron ar Ddyfodol Gwynt ar y Môr[4] wedi nodi mai prin yw’r cyfleoedd i ddatblygu yn nyfroedd Cymru yn y dyfodol, gyda rowndiau prydlesu dilynol y tu hwnt i Rownd 5 wedi’u lleoli’n bennaf yn nyfroedd Lloegr. Fodd bynnag, dylai seilwaith a chadwyni cyflenwi Cymru elwa o brydlesu yn y dyfroedd sy’n eiddo i Loegr yn y Môr Celtaidd yn y dyfodol.
2. **Mae incwm o ffioedd opsiwn ynni gwynt ar y môr wedi cronni i Ystâd y Goron yn yr Alban oherwydd amseriad datganoli’r Ystâd i’r Alban**. Wrth ddatganoli Ystâd y Goron yn yr Alban yn 2017, roedd Llywodraeth yr Alban wedi negodi gostyngiad Barnett (Addasiad i’r Grant Bloc) yn gyfnewid am ddatganoli ar sail refeniw adeg trosglwyddo. Oherwydd bod y broses hon wedi digwydd cyn y refeniw gwynt ar y môr dilynol, maent wedi elwa o ffawdelw. Pe bai Llywodraeth Cymru yn ceisio datganoli Ystâd y Goron nawr, byddai cyd-destun y negodiadau yn eithaf gwahanol, gyda’r refeniw uchel yn ddiweddar a’r rhagolygon ar gyfer refeniw yn y dyfodol yn fwy cyfyngedig. Byddai negodi bargen deg yn heriol ac yn annhebygol o arwain at enillion yn sgil ffawdelw. Pe bai Llywodraeth y DU o’r farn bod negodiadau’r gorffennol wedi bod yn rhy hael, mae hefyd yn bosibl y gallai negodi addasiadau ychwanegol i’r grant bloc i gyfrif am hyn (fel y mae’r Alban wedi’i brofi).

4 Dyfodol ynni gwynt ar y môr | Ystâd y Goron

3. **Byddai datganoli Ystâd y Goron yn golygu costau cyfle, risgiau a rhwymedigaethau**. Mae angen arbenigedd technegol sylweddol i gyflawni rowndiau prydlesu ynni gwynt ar y môr yn llwyddiannus, ac mae Ystâd y Goron yn lleihau'r gost hon gan ei bod yn gallu manteisio ar arbedion maint, sy'n golygu bod modd defnyddio mwy ar arbenigwyr ar amrywiaeth o faterion. Heb yr arbedion maint hyn, gallai dyblygu hyn ar lefel ddatganoledig fod yn ddrutach a gallai arwain at lai o enillion. Byddai hefyd yn bwysig ystyried y byddai datganoli'n trosglwyddo rhwymedigaethau canlyniadol, yn enwedig o ran datgomisiynu, a risgiau sy'n deillio o unrhyw ostyngiad mewn refeniw.

4. Gall Ystâd y Goron ddefnyddio pwerau newydd Deddf Ystâd y Goron 2025 i fenthyca a buddsoddi ar sail ei sylfaen asedau bresennol. Ar hyn o bryd nid yw'n glir pa gapasiti a phwerau benthyca a fyddai gan swyddogaeth newydd, ddatganoledig Ystâd y Goron yng Nghymru. Dylid rhagweld y byddai pwerau o'r fath yn dod ar draul cost cyfle i weddill Llywodraeth Cymru.

5. **Nid ydym wedi gweld tystiolaeth argyhoeddiadol sy'n awgrymu y byddai datganoli Ystâd y Goron i Gymru yn darnio Marchnad Ynni'r DU yn sylweddol**. Er bod datganoli Ystâd y Goron i'r Alban wedi newid cydbwysedd swyddogaethau llywodraeth wedi'u cadw a'u datganoli sy'n effeithio ar y farchnad ynni ledled y DU, mae'r farchnad wedi addasu i'r newid hwn ac mae ymateb uchelgeisiol y farchnad i rowndiau prydlesu dilynol yn yr Alban ac yng ngweddill y DU yn dangos nad yw datganoli i'r Alban wedi arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol i farchnad ynni ehangach y DU. Mae cyflawni prosiectau ynni yng Nghymru eisoes yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru eisoes yn gyfrifol am gynllunio a thrwyddedu morol, a drwy'r broses gynllunio, nhw sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfran fawr o brosiectau ynni mawr ar y tir (wedi'u capio ar 350MW ar gyfer pob technoleg ac eithrio gwynt) ac ar y môr (wedi'u capio ar 350MW ar gyfer pob technoleg). Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldebau wedyn dros nifer o agweddau sy'n hanfodol i gyflawni prosiectau ynni yng Nghymru, gan gynnwys cymhorthdal drwy'r Contractau Gwahaniaeth, ac mae'r prif alluogwyr o ran defnyddio ynni, gan gynnwys seilwaith ar gyfer rhwydweithiau trydan mawr, yn cael eu goruchwylio gan OFGEM fel rheoleiddiwr.

**14.** Ar ôl adolygu'r dystiolaeth hyd yma, credwn mai'r prif beth sy'n achosi'r bylchau hyn mewn dealltwriaeth yw diffyg gwybodaeth mewn fformat hygyrch a thryloyw. Mae hyn yn golygu nad yw'n hawdd i bobl Cymru ddeall llifau refeniw, penderfyniadau buddsoddi, na goblygiadau hirdymor gweithgareddau Ystâd y Goron yng Nghymru i gymunedau Cymru.

**15.** Fodd bynnag, drwy gydol ein trafodaethau ag Ystâd y Goron, rydym wedi gweld cydnabyddiaeth glir gan ei huwch arweinwyr, yn enwedig gan y Prif Weithredwr presennol, o ymrwymiad i dryloywder ac o werth tryloywder. Mae Ystâd y Goron wedi bod yn arbennig o gynorthwyol wrth ddarparu gwybodaeth i'r grŵp hwn ac rydym yn ddiolchgar am y cymorth hwn. Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu ffigurau sy'n benodol i Gymru yn adolygiad Cymru a'r Adroddiad Blynyddol sydd yn yr arfaeth. Rydym hefyd yn cydnabod bod gwaith yn mynd rhagddo i benodi Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb arbennig i roi cyngor am Gymru, ac rydym yn croesawu hynny.

**16.** Rydym yn credu'n glir y dylai Ystâd y Goron a Llywodraeth y DU ystyried ymdrechion i ddarparu dadansoddiad sylweddol sy'n dangos costau a manteision y dull gweithredu presennol. Bydd mynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth hwn yn rhan hanfodol o'r gwaith o wella ymddiriedaeth y cyhoedd a chaniatáu craffu priodol gan sefydliadau democrataidd Cymru.

**17.** Byddem yn disgwyl y byddai dadansoddiad cryfach o effaith economaidd gweithgareddau Ystâd y Goron yng Nghymru yn helpu i roi sicrwydd i bobl Cymru eu bod yn elwa ar y gweithgarwch economaidd sy'n digwydd yma, ac yn helpu i lywio trafodaethau ar y modelau llywodraethu sy'n cael eu ffafrio yn y dyfodol.

## Partneriaeth Newydd

**18.** Mae Ystâd y Goron wedi cyhoeddi cynlluniau hirdymor cyffrous ar gyfer datblygu ynni gwynt ar y môr yn y moroedd o amgylch Cymru. Mae hefyd yn galonogol, yn dibynnu ar amodau'r farchnad, y bydd Ystâd y Goron, dros y degawd nesaf, yn cynyddu'r buddsoddiad yng Nghymru yn sylweddol i gefnogi'r cynlluniau hyn.

**19.** Rydym yn glir mai'r brif flaenoriaeth i Gymru ddylai fod sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posib i gymunedau Cymru sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau hyn. Credwn fod graddfa'r manteision posibl hyn yn dangos yr angen i sefydlu partneriaeth ffurfiol ar unwaith rhwng Ystâd y Goron a Llywodraeth Cymru i nodi'r buddsoddiad galluogi hanfodol y bydd ei angen er mwyn cyflawni'r nod hwn yn gyflym. Y bartneriaeth ddylai benderfynu ar y cyd ar natur y buddsoddiad hwn – yn gyhoeddus ac yn breifat – ond yn ein hymchwiliadau rydym wedi dod i wybod am yr heriau sy'n gysylltiedig â gwella seilwaith porthladdoedd, cadwyni cyflenwi a datblygu'r sgiliau gweithlu angenrheidiol.

**20.** Rydym wedi nodi bod perthynas waith effeithiol ond anffurfiol eisoes yn bodoli rhwng Ystâd y Goron ac amrywiaeth o sefydliadau yng Nghymru. Byddai'r bartneriaeth fwy ffurfiol hon yn fecanwaith mwy effeithiol i sicrhau nad yw cyfleoedd i hybu twf economaidd lleol yn cael eu colli. Byddai hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion a gwerthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 ac wedi'i ddylunio i sicrhau cydweithio effeithiol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn datblygu portffolio o fuddsoddiadau sy'n seiliedig ar leoedd. Bydd pawb sy'n cydweithio wedyn yn gyfrifol am ddilyn eu prosesau gofynnol eu hunain i gyflawni unrhyw gytundeb yn unol â'u gofynion deddfwriaethol.

**21.** Credwn y byddai'r berthynas gryfach hon hefyd yn helpu i wella atebolrwydd a thryloywder gweithgareddau Ystâd y Goron yng Nghymru wrth i'r achos busnes dros ddatganoli ehangach gael ei ddatblygu. Byddai'r math hwn o ddull partneriaeth hefyd yn gyson â chytundebau tebyg gyda chyrff ar draws y DU sy'n gweithredu yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o Ewrop, fel Sbaen lle mae fframwaith cenedlaethol wedi'i gyfuno â datganoli cadarn ar gyfer gweithredu manwl.

**22.** Er mwyn i'r bartneriaeth hon weithio'n effeithiol, bydd angen i'r holl bartïon dan sylw flaenoriaethu'r lefel briodol o gapasiti ac arbenigedd i sicrhau bod modd pennu blaenoriaethau buddsoddi yn gyflym yn unol â'r amserlenni ar gyfer datblygiadau ehangach ar y môr.

## Ystyriaethau ar gyfer modelau llywodraethu yn y dyfodol

**23.** Byddai'r manteision ariannol o gyflawni unrhyw ddatganoli a ddymunir yn dibynnu ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd, trafodaethau ar unrhyw ostyngiad yn y grant bloc, a dyluniad a chylch gwaith yr endid newydd: ei ddiben, ei fodel buddsoddi, a'i egwyddorion arweiniol. Wrth ddylunio unrhyw fodelau amgen posibl, byddai angen i Weinidogion Llywodraeth Cymru ystyried gofynion capasiti a chostau cyfleoedd i sicrhau

bod yr Ystâd yn cael ei rheoli'n effeithiol yng Nghymru, wedi'u llywio yn ôl yr angen gan Ystâd y Goron ac Ystâd y Goron yr Alban fel modelau sy'n bodoli eisoes.

**24.** Mae llwyddiant Ystâd y Goron ar ei ffurf bresennol yn deillio o'i harbenigedd technegol, ei henw da rhyngwladol, ei model buddsoddi masnachol a'i hyblygrwydd ariannol, a'r manteision sy'n deillio o arbedion maint strwythur sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**25.** Er y byddai modd dyblygu llawer o elfennau effeithiol Ystâd y Goron ar lefel Cymru gyfan neu lefel leol, gallai rhannu strwythurau rheoli Ystâd y Goron ymhellach yn endid datganoledig newydd greu gwrthdaro (er bod profiad yr Alban yn dangos y gellir mynd i'r afael â'r pryder hwn drwy gydweithio effeithiol lle bo angen, ac yn wir y gall modelau rheoli amrywiol ledled y DU ddarparu llwyfan ar gyfer dulliau newydd a dysgu ar y cyd) a golygu bod angen blaenoriaethu capasiti ychwanegol i gyflawni ar lefel debyg. Byddai hyn yn golygu cost cyfle i Lywodraeth Cymru i raddau nad ydynt wedi cael eu hystyried a'u mesur eto mewn achos busnes ffurfiol.

**26.** Mae'n bosibl y byddai Gweinidogion Cymru yn dymuno gwneud penderfyniadau ynghylch yr iawndal i gymunedau sy'n cynnal gweithgareddau (ee seilwaith ynni adnewyddadwy newydd) a blaenoriaethu cwmnïau o Gymru mewn cadwyni cyflenwi lleol, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau y gallai cyfraith cystadleuaeth eu gosod. Er y byddai cyfleoedd i gyd-fynd yn fwy effeithiol ag unrhyw flaenoriaethau o'r fath gan Weinidogion Cymru, dylid rhag-weld y byddai hyn yn lleihau'r refeniw a fyddai'n cael ei ddychwelyd i'w wario ar flaenoriaethau eraill.

**27.** Mae gennym rai pryderon, yn enwedig o ran y bylchau posibl yn y dystiolaeth a nodwyd uchod, y gallai fod disgwyliadau rhy uchelgeisiol ynghylch enillion posibl i Lywodraeth Cymru a allai danseilio'r disgwyliadau o fudd ariannol sy'n deillio o unrhyw swyddogaeth ddatganoledig arfaethedig.

**28.** Bwriad ein Hargymhellion yw lleihau'r bwlch hwn yn y dystiolaeth a rhoi'r gallu i Lywodraeth newydd Cymru nodi'n glir ei bwriadau ar gyfer swyddogaeth bosibl Ystâd y Goron yng Nghymru, a'i blaenoriaethau.

**29.** Os bydd llywodraeth newydd yn dymuno i weithgarwch y Grŵp hwn barhau, ein bwriad fyddai adolygu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni pob argymhelliad i ddatrys y bwlch hwn yn y dystiolaeth.

**30.** Maes o law, pe bai'r grŵp yn parhau, byddem yn ceisio cyhoeddi matrics i gymharu pob opsiwn i helpu i lywio datblygiad yr achos busnes a argymhellwyd yn Argymhelliad 4. Byddai hwn yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'n hadroddiad terfynol, gan gynnwys dadansoddiad llawn o'r opsiynau ar gyfer llywodraethu Ystâd y Goron yng Nghymru yn y dyfodol. Byddai gwybodaeth am lifau ariannol, costau a manteision yn hanfodol ar gyfer cynnal dadansoddiad ystyrlon.

## Casgliad

**31.** Gyda'i gilydd, bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad interim hwn yw sicrhau llwybr clir a phragmataidd at sicrhau'r manteision gorau posibl i bobl, cymunedau ac economi Cymru i Lywodraeth nesaf Cymru, Llywodraeth y DU ac Ystâd y Goron eu hystyried.

**32.** Yn y tymor byr, byddai'r camau hyn yn gwella hyder y cyhoedd ac yn helpu i sicrhau bod gweithgarwch ac ymyriadau presennol ac arfaethedig Ystâd y Goron yn sicrhau manteision amlwg sy'n seiliedig ar leoedd ar hyd a lled Cymru. Yn y tymor canolig, byddent yn darparu sylfaen gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio dewisiadau yn y dyfodol ynghylch llywodraethu a datganoli. Yn y tymor hir, dylai Cymru allu sicrhau'r strwythur llywodraethu gorau posibl a fydd yn cyflawni'r dewis tymor hir a fynegwyd gan Gymru yn y ffordd orau.